

**Ymgyrch Gyfathrebu
Genedlaethol
VAWDASV – Nid
Cariad yw Hyn:
Rheoli yw Hyn**

Porth Eiriolaeth

Project Y Gwir

Briffiau 7 Munud

**Cyhoeddi
Adolygiadau Ymarfer
Plant**

**Diweddariad
Gweithdrefnau
Diogelu Cymru Gyfan**

**NSPCC – adnoddau
'Gadewch i blant
wybod eich bod yn
gwrando'**

**Profiadau Plentynod
Andwyol (PPA)**

**Rydym yn falch o
gyhoeddi fod
Naomi Meredith
wedi ymuno â'r
Uned Fusnes ar 21
Ionawr fel Rheolwr
Busnes Dros Dro.**

Ymgyrch Gyfathrebu Genedlaethol VAWDASV – Nid Cariad yw Hyn: Rheoli yw Hyn

Lansiwyd yr ymgyrch '**Nid cariad yw hyn: rheoli yw hyn**' ar 17 Ionawr a'i nod yw helpu pobl i adnabod ymddygiadau rheoli cymhellol o fewn perthynas ac i'w hadnabod fel rhai anghywir a difriol. Ei nod hefyd yw helpu pobl sy'n profi neu sy'n dyst i ymddygiadau o'r fath i chwilio am gyngor a chymorth gan Llinell Gymorth Am Ddim Byw Heb Ofn.

Mae'r ymgyrch yn dangos cyplau mewn sefyllfaoedd bob dydd gydag arwyddion rheoli yn ymddangos yn gynnil, gan ddangos fel y gall perthynas ymddangos yn gariadus ar y tu allan, fod patrymau ymddygiad yn gallu cael effaith ddifrifol ar bobl, gan wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu rheoli, yn ddibynol, yn ynysig neu'n ofnus.

Nod yr ymgyrch yw grymuso pobl i wella'u bywydau drwy adnabod arwyddion ymddygiad rheoli a newid y llwybr sydd yn arwain at gam-drin corfforol.

Mae'r ymgyrch aml-gyfrwng hwn yn cynnwys darlledu ffilm ar deledu cenedlaethol, ac ar y cyfryngau digidol a chymdeithasol. <https://youtu.be/x-ne3ZK3QFs>

Mae holl hysbysebion yr ymgyrch yn cyfarwyddo dioddefwyr a phartïon â diddordeb i gysylltu â Llinell Gymorth 24-awr Am Ddim Byw Heb Ofn ar 0808 10 800 i gael help a chymorth.

[Byw Heb Ofn](#)



**Porth Eiriolaeth
Caerdydd a'r Fro**

**Cardiff & Vale
Advocacy Gateway**

Porth Eiriolaeth

Mae Porth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro yn bwynt mynediad sengl i Oedolion sydd yn chwilio am gymorth i'w helpu nhw i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi eu gofal a'u cymorth.

Pan fydd person heb unrhyw un i eiriol ar ei ran, gall Porth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro gynnig help llaw.

Mae Porth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro yn rhif Rhad-ffôn: **0808 801 0577**, ar gael o 09:00 – 17:00 Dydd Llun i Ddydd Gwener. Bydd y Porth yn cynnwys:

- Cyngor ar y gwahanol fathau o eiriolaeth sydd ar gael yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg
- Rhoi gwybodaeth ar y gwahanol sefydliadau eiriolaeth yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg
- Cynorthwyo, drwy gysylltu â'r sefydliad Eiriolaeth lleol perthnasol mewn sgwrs dair ffordd neu drwy atgyfeiriad ymlaen
- A, Cyfeirio at sefydliadau cymorth perthnasol eraill

Project Y Gwir

Mae Project y Gwir yn rhoi'r cyfle i ddioddefwyr a rhai sydd wedi goroesi i rannu eu profiadau yn bersonol, dros y ffôn neu ar bapur. Gall cyfranogwyr hefyd rannu unrhyw argymhellion i gadw plant yn ddiogel yn y dyfodol. Gallwch gysylltu â Phroject y Gwir ar 0800 917 1000. Maent ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwener 08:00 – 20:00, Dydd Sadwrn 10:00 – 12:00. Mae galwadau am ddim ac nid yw'n ymddangos ar eich bil ffôn.

Gwefan: [Prosiect y Gwir](#)



Briffiau 7 Munud

Mae cyfres o Friffiau 7 Munud wedi eu hychwanegu i'r wefan sydd yn cynnwys:

- Esgeuluso'r Glasoed
- Themâu Adolygiadau Ymarfer Oedolion
- Camfanteisio ar Blant
- Cyd-gysgu
- Gangiau Cyffuriau Llinellau Ffôn
- Meddwl yn Feirniadol
- Chwilfrydedd Proffesiynol
- Cam-drin Domestig Hŷn
- Cam-drin Ariannol
- Ymddygiad Rhywiol Niweidiol

Mae'r dolenni i'r briffiau Oedolion [yma](#) ac i'r rhai Plant [yma](#)

Cyhoeddi Adolygiadau Ymarfer Plant (AYP)

Mae **CPR 02/2016** wedi ei gyhoeddi gan y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol gydag argymhellion ynghylch hyfforddiant, cynnig Eiriolwr i blant sy'n derbyn Gofal Awdurdod Lleol, mathau gwahanol o gyfathrebu a datblygu polisi lleol yn ymwneud â gwiriadau lles.


Gellir gwneud cais am gopi o'r adroddiad drwy'r Uned fusnes neu gellir ei lawrlwytho o'r wefan:

www.cardiffandvalersb.co.uk

Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan - Diweddariad

Mae'r adran ddrafft ar Wneud Penderfyniad wedi ei anfon allan i'r rhanbarthau ac mae'n cael ei goladu ar hyn o bryd. Oherwydd cymaint fu'r adborth yn dod yn ôl i dîm y project, mae templed newydd wedi ei ddatblygu. Mae disgwyl i'r adran nesaf, Cynllunio ac Ymyrraeth, fynd allan i'r rhanbarthau er mwyn ymgynghori arno yn gynnar fis Ebrill.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi Dechrau digideiddio'r gweithdrefnau ac mae hyn yn enghraifft o sut y byddant yn trin yr app ffôn symudol a fydd yn cyd-fynd â hwy. Bydd gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru yn gartref i fersiwn ar-lein y gweithdrefnau.



Y Gymdeithas Er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) – Adnoddau ‘Gadewch i’r plant wybod eich bod yn gwranddo’

Ar 19 Chwefror 2019, lansiodd y Gymdeithas adnodd diogelu cenedlaethol fel rhan o ‘Project Gweithwyr Proffesiynol yn Tarfu ar y Tawelwch’. Yn ogystal â’r lansiad mae nifer o ddigwyddiadau dysgu cysylltiedig wedi eu trefnu, wedi eu hariannu yn rhannol gan Lywodraeth Cymru a’u trefnu gan Fyrddau Diogelu ledled Cymru. Cynhaliwyd digwyddiad dysgu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro ar 20 Chwefror, gydag ymarferwyr o bob aml-asiantaeth yn mynychu.

Mae’r adnoddau wedi eu cynllunio i fod yn gymorth i ymarferwyr pan fo plentyn yn datgelu camdriniaeth. Mae tri cham syml i’w cofio er mwyn sicrhau y gwrandewir bob tro ar blant a phobl ifanc:

- Dangoswch eich bod yn malio, helpwch nhw i SIARAD.
- Cymerwch bwyll, ARAFWCH.
- Dangoswch eich bod yn deall, AILADRODDWCH YN ÔL

Gellir cael gafeael ar yr adnoddau o’r wefan ganlynol: www.nspcc.org.uk/listen



Profiadau Plentyndod Niweidiol (PPN)

Mae Profiadau Plentyndod Niweidiol (PPN) yn brofiadau trawmatig sy’n digwydd yn ystod plentyndod ac a gaiff eu cofio gydol oes yr oedolyn. Mae’r profiadau hyn yn amrywio o ddioddef cam-drin geiriol, meddyliol, rhywiol a chorfforol, i gael eu magu ar aelwyd lle profwyd trais domestig, gwahanu gelyniaethus rhwng rhieni neu salwch meddyliol rhieni, cam-drin alcohol neu gyffuriau neu garcharu.

Mae’r Hyb Cymorth Profiadau Plentyndod Niweidiol (PPN) wedi ei sefydlu er mwyn helpu i fynd i’r afael â PPNau. Bydd yn helpu i greu’r amgylchedd ar gyfer newid a rhoi cymorth i unigolion, cymunedau a sefydliadau er mwyn helpu i greu cymdeithas sydd yn ymwybodol o PPNau.

Ariennir yr Hyb Cymorth PPN gan Lywodraeth Cymru gyda’r bwriad o liniaru a mynd i’r afael â PPNau o fewn y ddwy flynedd nesaf yn seiliedig ar ymchwil Cymreig sydd ar waith. Nododd yr ymchwil fod PPN aml-genhedlaeth yng Nghymru sydd yn effeithio ar bobl o bob cefndir cymdeithasol ac economaidd.

Cynhaliodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro Weithdy PPN ddydd Gwener 22 Chwefror, a fynychwyd gan ymarferwyr o asiantaethau amrywiol. Nod y gweithdy oedd codi ymwybyddiaeth o ymchwil Cymreig ar PPNau a helpu i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o PPNau ymysg y gweithlu. Un o nodau Hyb Cymorth PPN yw datblygu gwybodaeth a sgiliau gweithwyr proffesiynol, ac mae’n ceisio trefnu grŵp llywio. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn ymuno â’r grŵp llywio neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ACE@wales.nhs.uk

Am fwy o wybodaeth ynghylch y gwaith a wneir gan hyb cymorth PPNau ewch i

www.aceawarewales.com

Twitter @acehubwales

Facebook/acehubwales/

I gysylltu â’r Uned Fusnes ffoniwch 02922 330880 neu e-bostiwch

caerdyddabromorgannwgbdr@caerdydd.gov.uk